



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 Rhif 2721 (Cy.232)

2009 No. 2721 (W.232)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

CONSERVATION OF SEA FISH

**Gorchymyn Gwahardd Pysgota am
Gregyn Bylchog (Cymru) 2009**

**The Prohibition of Fishing for
Scallops (Wales) Order 2009**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer tymor caeëdig mewn perthynas â physgota cregyn bylchog yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 1 Tachwedd 2009 i 28 Chwefror 2010.

Article 3 of this Order provides for a closed season in respect of scallop fishing in Wales during the period from 1 November 2009 to 28 February 2010.

Mae erthygl 4 yn gosod pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, yn ychwanegol at eu pwerau o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 ("y Ddeddf"). Dylid nodi hefyd, yn rhinwedd adran 5(6) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan adran 22(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981), os, yn ystod unrhyw weithrediadau pysgota a ddigwydd yng Nghymru, caiff pysgod môr (gan gynnwys pysgod cregyn) eu dal yn groes i'r Gorchymyn hwn, ac os cânt eu cymryd ar fwrdd cwch pysgota y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, rhaid dychwelyd y pysgod môr hynny i'r môr ar unwaith (yn ddarostyngedig i adran 9 o'r Ddeddf).

Article 4 sets out the powers of British sea-fishery officers in respect of this Order, in addition to their powers under the Sea Fish (Conservation) Act 1967 ("the Act"). It should also be noted that, by virtue of section 5(6) of the Act (as amended by section 22(2) of the Fisheries Act 1981), where, in the course of any fishing operations conducted in Wales, sea fish (which includes shellfish) are caught in contravention of this Order and are taken on board a fishing boat to which this Order applies, those sea fish must (subject to section 9 of the Act) be returned to the sea forthwith.

Mae erthygl 5 yn dirymu Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005.

Article 5 revokes the Scallop Fishing (Wales) Order 2005.

Gwnaed asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

A regulatory impact assessment has been undertaken in respect of this Order and is available for inspection at the offices of the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2009 Rhif 2721 (Cy.232)

2009 No. 2721 (W.232)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

CONSERVATION OF SEA FISH

**Gorchymyn Gwahardd Pysgota am
Gregyn Bylchog (Cymru) 2009**

**The Prohibition of Fishing for
Scallops (Wales) Order 2009**

Gwnaed 7 Hydref 2009
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 8 Hydref 2009
Yn dod i rym 1 Tachwedd 2009

Made 7 October 2009
*Laid before the National
Assembly for Wales* 8 October 2009
Coming into force 1 November 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 5(1), 5A(1), 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 5(1), 5A(1), 15(3) and 20(1) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), and now vested in them(2), make the following Order.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwahardd Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of this Order is The Prohibition of Fishing for Scallops (Wales) Order 2009 and it comes into force on 1 November 2009.

(2) This Order applies in relation to Wales.

- (1) 1967 p.84. Disodlwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 22(1). Mewnosodwyd adran 5A gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 103(1). Disodlwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), adran 22(1), Atodlen 1, Rhan II, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) a'i diwygio ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1) a (2)(b). *Gweler* adran 22(2) i gael y diffiniadau o "the Ministers". Cafodd adran 22(2) ei diwygio gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d), a 45(a), (b) ac (c), a 46(2), Atodlen 5, Rhan II a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(1), (12) a Rhan IV a chan Ddeddf Cyfansoddiad Gogledd Iwerddon 1973, adran 40, Atodlen 5, paragraff 8(1).
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o'r Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5, 5A, 15 a 20 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddiwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu'n gyfamserol â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

- (1) 1967 c.84. Section 5(1) was substituted by the Fisheries Act 1981 (c. 29), section 22(1). Section 5A was inserted by the Environment Act 1995 (c.25), section 103(1). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c.77), section 22(1), Schedule 1, Part II, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), section 9(1), Schedule 2, paragraph 16(1) and further amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 43(1) and (2)(b). *See* section 22(2) for definitions of "the Ministers". Section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(a), (b) and (c) and 46(2), Schedule 5, Part II and by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, paragraph 43(1), (12) and Part IV and by the Northern Ireland Constitution Act 1973, section 40, Schedule 5, paragraph 8(1).
- (2) By virtue of article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under sections 5, 5A, 15 and 20 of the 1967 Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) in so far as exercisable in relation to Wales (acting concurrently with the Secretary of State in relation to the section 15(3)). Those functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Dehongli

2.–(1) Yn y Gorchymyn hwn, oni bai bod y cyddestun yn mynnu fel arall–

ystyr "cragen fylchog" ("*scallop*") yw cragen o'r rhywogaeth *Pecten maximus*;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(1) neu sydd dan berchnogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchnogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

mae i "Cymru" ("*Wales*") yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff unrhyw berson bysgota, cymryd na lladd cregyn bylchog yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1 Tachwedd 2009 i 28 Chwefror 2010 gan gynnwys y dyddiadau hynny drwy unrhyw gyfrwng gan gynnwys plymio.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig

4.–(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig yng Nghymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw wrth ei ddyletswyddau ac, at y diben hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu bod y meist'r a phersonau eraill ar y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymholiad sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol at y diben o orfodi'r Gorchymyn hwn fel y'i darllenir gyda'r Ddeddf ac, yn arbennig–

(a) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch ac offer y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad;

(1) 1995 p.21.

(2) 2006 p.32.

Interpretation

2.–(1) In this Order, unless the context requires otherwise–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fish (Conservation) Act 1967;

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(1) or is wholly owned by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of that Act;

"scallop" ("*cragen fylchog*") means the species *Pecten maximus*;

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given in section 158 of the Government of Wales Act 2006(2).

Prohibition

3. No person is to fish for, take or kill scallops in Wales during the period 1 November 2009 to 28 February 2010 inclusive by any means, including diving.

Powers of British sea-fishery officers

4.–(1) For the purposes of enforcing this Order a British sea fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any British fishing boat in Wales.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in that officer's duties, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination or inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose of enforcing this Order as read with the Act and, in particular–

(a) may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to be necessary for facilitating the examination;

(1) 1995 c.21.

(2) 2006 c.32.

- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd ar y cwch gynhyrchu unrhyw ddogfen sydd dan gadwad neu ym meddiant y person hwnnw ac sy'n ymwneud â'r cwch, gweithrediadau pysgota'r cwch neu weithrediadau eraill sy'n ategol i hynny neu sy'n ymwneud â'r personau sydd ar y cwch a chaiff wneud copïau o unrhyw ddogfen o'r fath;
- (c) at ddbenion canfod a yw meist, perchennog neu siartwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan y Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn, caiff archwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a mynnu bod unrhyw berson ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd, yn nhyb y swyddog, ei angen i hwyluso'r archwiliad; ac
- (ch) os oes gan y swyddog reswm dros amau fod y cwch yn un y mae tramgwydd o'r fath wedi ei gyflawni mewn cysylltiad ag ef, caiff yn ddarostyngedig i baragraff (4) ddal gafael ar a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gynhyrchwyd neu a ganfyddwyd ar fwrdd y cwch at y diben o allu defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos llys am y tramgwydd.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3)(ch) yn caniatáu i unrhyw ddogfen, y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, gael ei chipio a'i chadw ac eithrio tra bydd y cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.

(5) Pan fydd yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn wedi'i thorri ar unrhyw adeg, caiff y swyddog—

- (a) mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd cyfleus agosaf yn ei dyb ef, neu fynnu bod meist y cwch yn gwneud hynny; a
- (b) cadw'r cwch yn y porthladd, neu fynnu bod meist y cwch yn gwneud hynny;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw cwch neu'n ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn cael ei gadw, rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meist yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

(6) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

Dirymu

5. Dirymir Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005(1).

- (b) may require any person on board the boat to produce any document which is in that person's custody or possession relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board and may take copies of any such document;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under the Act as read with this Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search; and
- (d) if the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may subject to paragraph (4) seize and detain any such document produced or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(4) Nothing in paragraph 3(d) permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(5) A British sea-fishery officer to whom it appears that a contravention of any provision of this Order has at any time taken place may—

- (a) take, or require the master of the boat to take, the boat and its crew to the port which appears to be the nearest convenient port; and
- (b) detain, or require the master to detain, the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

(6) In this article, "*officer*" ("*swyddog*") means a British sea-fishery officer.

Revocation

5. The Scallop Fishing (Wales) Order 2005(1) is revoked.

(1) O.S. 2005/1717 (Cy.132).

(1) S.I. 2005/1717 (W.132).

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru.

7 Hydref 2009

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers.

7 October 2009

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 2721 (Cy.232)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Gwahardd Pysgota am
Gregyn Bylchog (Cymru) 2009

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 No. 2721 (W.232)

**SEA FISHERIES,
WALES**

CONSERVATION OF SEA FISH

The Prohibition of Fishing for
Scallops (Wales) Order 2009